**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADDYSG, IEUENCTID A DIWYLLIANT**
**21 MAWRTH 2024**

Cofnodion cyfarfod hybrid Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg, Ieuenctid a Diwylliant Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd ddydd Iau, 21 Mawrth 2024.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Teresa Carberry (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Bill Crease, Paul Cunningham, Gladys Healey, Dave Mackie, Gina Maddison, Ryan McKeown, Andrew Parkhurst, Carolyn Preece a Jason Shallcross

**DIRPRWYON:**
Y Cynghorydd Debbie Owen (ar ran y Cynghorydd David Richardson)

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Arnold Woolley, Lynn Bartlett a Wendy White

**CYFRANWYR:**
Y Cynghorydd Mared Eastwood (Aelod Cabinet Addysg, y Gymraeg, Diwylliant a Hamdden; Arweinydd y Cyngor; y Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid)
Y Rheolwr Rhanbarthol (Cynllunio Rhag Argyfwng) (ar gyfer eitem 52 ar y rhaglen)
Uwch Reolwr (Gwella Ysgolion) (ar gyfer eitem rhif 53 ar y rhaglen)

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Yr Hwyluswyr Trosolwg a Chraffu a Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd

## 48 DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau.

## 49. COFNODION

1 Chwefror 2024

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Chwefror 2024, fel y'u cynigiwyd gan y Cynghorydd Dave Mackie a'u heilio gan y Cynghorydd Gladys Healey.

Materion yn Codi

Tudalen 7

Mewn ymateb i gwestiynau gan y Cynghorydd Andrew Parkhurst ar risgiau'r dyfodol o amgylch y 'Gyllideb Ysgolion heb ei Dyrannu'. Gofynnodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) i'r Cynghorydd Parkhurst anfon e-bost ati gyda chwestiynau ar ôl y cyfarfod er mwyn iddi allu cysylltu â'r Rheolwr Cyllid a darparu ymateb i holl Aelodau'r Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Chwefror 2024 a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi fel cofnod cywir.

## 50. RHAGLEN WAITH AC OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU

Wrth gyflwyno'r adroddiad, amlinellodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu yr eitemau sydd wedi'u rhestru ar y Rhaglen Waith a oedd ynghlwm yn Atodiad 1. Byddai'r Rhaglen Waith yn cael ei diweddaru i gynnwys dyddiadau'r cyfarfodydd yn y dyfodol yn dilyn Cyfarfod Blynyddol y Cyngor Sir.

Wrth gyflwyno'r adroddiad Olrhain Gweithredu, cadarnhaodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu bod y camau ar recriwtio a chadw staff wedi'u cynnwys yn Rhaglen Waith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol. Hefyd, amlygwyd bod Adolygiad Ardal Saltney a Brychdyn a chamau Theatr Clwyd wedi eu cynnwys o dan eitemau i'w cynnwys. Roedd y llythyr gan y Cadeirydd yn diolch i Benaethiaid wedi cael ei ddosbarthu drwy e-bost a chadarnhawyd bod y camau oedd yn ymwneud â Chynllun y Cyngor wedi cael eu cwblhau gyda'r Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) yn dosbarthu e-bost i holl staff yn diolch iddynt am eu gwaith caled i gyflawni'r prif dargedau blaenoriaeth. Roedd yr holl gamau bellach wedi eu cwblhau.

Roedd y Cadeirydd wedi gofyn i adroddiad gan NEWydd mewn perthynas â Phrydau Ysgol gael ei ychwanegu at y Rhaglen Waith. Yn dilyn cais gan y Cynghorydd Dave Mackie i adborth gan ysgolion/disgyblion gael ei gynnwys yn yr adroddiad, roedd y Prif Swyddog yn awgrymu bod Steve Jones a Claire Sinnott yn cydweithio ar adroddiad i nodi disgyblion yn ymgysylltu â NEWydd o amgylch Prydau Ysgol.

Roedd y Cynghorydd Mackie yn gofyn i adroddiad ar Wella Ysgol mewn perthynas â GwE, yn benodol o amgylch cyllido'r sefydliad a chynigion wrth symud ymlaen gael ei ychwanegu at y Rhaglen Waith. Roedd y Prif Swyddog yn croesawu hyn ac yn awgrymu bod adroddiad yn manylu goblygiadau'r newidiadau, effeithiau ariannol a disgwyliadau ar yr Awdurdodau Lleol i wneud trefniadau gwahanol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn y cyfarfod ym mis Mai.

Roedd y Prif Swyddog yn awgrymu bod adroddiad ar Arolygiaeth y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn cael ei ychwanegu i'r Rhaglen Waith ar gyfer cyfarfod mis Medi.

Gofynnodd y Cynghorydd Andrew Parkhurst a fyddai'r adroddiad i'r Cydbwyllgor Craffu ym mis Mehefin ar Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cynnwys gwybodaeth ar ddarparu addysg i blant gydag Awtistiaeth. Dywedodd y Prif Swyddog o fewn yr adroddiad y byddai yna gyfeiriad penodol at addysg arbenigol a beth oedd yn cael ei wneud i fynd i'r afael â'r galw cynyddol hwn.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Parkhurst ar yr adroddiad Arian Wrth Gefn Ysgolion, dywedodd y Prif Swyddog bod yn rhaid i ysgolion gyflwyno eu cyllidebau i'r Cyngor erbyn 30 Mehefin a bod yna nifer o brosesau yn cael eu cynnal ar hyn o bryd o amgylch ailstrwythuro'r gweithlu. Teimlwyd na

fyddai hwn yn barod cyn gwyliau'r haf ac mai mis Medi oedd yr amser gorau i gyflwyno hwn i'r Pwyllgor.

Cynigiodd y Cynghorydd Gladys Healey yr argymhellion, sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad, a chawsant eu heilio gan y Cynghorydd Carolyn Preece.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi'r Rhaglen Waith;

(b) Rhoi awdurdod i'r Hwylusydd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor, i amrywio'r Rhaglen Waith rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen; a

(c) Nodi'r cynnydd a wnaed wrth gyflawni'r camau gweithredu nad oedd wedi'u cwblhau.

## 51. TREFNIADAU CYNLLUNIO RHAG ARGYFWNG

Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad a chadarnhaodd ei fod yn cynnwys gwybodaeth ar y digwyddiad yn ymwneud â phibell ddŵr wedi byrstio a'r Gwasanaeth Cynllunio Rhag Argyfwng ehangach yn ôl y gofyn gan y Pwyllgor mewn cyfarfod blaenorol.

Darparodd y Rheolwr Rhanbarthol Cynllunio Rhag Argyfwng wybodaeth gefndir ar ffurf a swyddogaeth Cynllunio Rhag Argyfwng yn Sir y Fflint. Roedd hyn yn cynnwys y cyfrifoldebau statudol o dan ddeddfwriaeth a rôl Prif Weithredwr Gwasanaeth Cynllunio Rhag Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru (NWC-REPS).

Cafwyd cyflwyniad yn cynnwys manylion ar y sleidiau canlynol:-

- Pam ein bod yn cynllunio rhag argyfwng
- Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004
- Deddfwriaethau eraill
- Diffiniad o Argyfwng a Digwyddiadau Mawr
- Beth sy'n gallu achosi argyfyngau?
- Beth yw Gwasanaeth Cynllunio Rhag Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru
- Strwythur Cynllunio Rhag Argyfwng Cyngor Sir y Fflint
- Argyfyngau Diweddar yn Sir y Fflint a Gogledd Cymru
- Strwythur y Fforwm Lleol Cymru Gydnerth
- Ymateb i Covid
- Ôl-drafodaeth
- Prif risgiau yng Ngogledd Cymru
- E-ddysgu Aelodau Etholedig

Cyfeiriodd y Cynghorydd Dave Mackie at y mater llifogydd y bu'n ymwneud ag ef a gofynnodd a fyddai'n bosibl darparu rhif cyswllt i'r Aelodau ar gyfer unigolyn a fyddai'n gallu arwain yr ysgol ar pa un ai i gau ai peidio.

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at bwynt 1.03 yn yr adroddiad a'r ôl-drafodaeth yn dweud y dylai Dŵr Cymru gael cynllun uwchgyfeirio ar waith a

fyddai wedi rhybuddio'r Tîm Cynllunio Rhag Argyfwng a fyddai wedi cydlynu'r pwyntiau cyswllt. Ni wnaeth hyn ddigwydd. Yn dilyn y dysgu ar hyn a sefydlu'r cynllun prawf, dylai hyn sicrhau bod y cynllun yn cael ei weithredu yn y dyfodol. Cadarnhaodd y Rheolwr Rhanbarthol ei bod wedi gweithio gyda chyfoedion cynllunio rhag argyfwng o fewn Dŵr Cymru i sicrhau bod y cynllun ar waith er mwyn hysbysu'r tîm yn y dyfodol. Sicrhaodd yr Aelodau os byddent yn cael gwybod am unrhyw ddigwyddiad ac nad oeddent yn sicr pwy i gysylltu â nhw y gallent gysylltu â'i thîm am gyngor.

Mewn ymateb i gwestiynau gan y Cynghorydd Andrew Parkhurst ynglŷn â chyllid, dywedodd y Prif Weithredwr fod gan bob Awdurdod Lleol ei dîm ei hun o'r blaen ac fel rhan o'r dull rhanbarthol i gwtogi a chreu cysondeb cafodd ei dynnu at ei gilydd gyda'r tîm yn delio gyda materion yn fwy effeithiol. Eglurodd y Rheolwr Rhanbarthol fod y cyllid yn cael ei ddyrannu ar sail canran poblogaeth. Roedd y cyllid wedi'i ddyrannu ar gyfer costau staffio, hyfforddi ar gyfer staff awdurdod lleol a chynhyrchu adroddiadau rheoli perfformiad ac e-Ddysgu. Roedd y tîm hefyd wedi mynychu chwe chyfarfod pwyllgor craffu ar gyfer pob awdurdod lleol gyda'r Adroddiad Blynyddol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol. Roedd y tîm wedi gweithio gyda'r Tîm Rheoli Gwybodaeth i drafod testunau ar gyfer dysgu ac edrych ar yr ôl-drafodaeth o ymosodiad Arena Manceinion yn benodol o amgylch rôl yr Aelodau. Roedd llawlyfr yn cael ei gynhyrchu i Aelodau a fyddai'n amlinellu'r cyfrifoldebau i Aelodau, Arweinwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth i sicrhau bod y negeseuon cywir yn cael eu hanfon i'r cyhoedd. Unwaith y bydd hyn wedi cael ei adolygu byddai'n cael ei ddosbarthu i Aelodau. Eglurwyd ar ôl pob digwyddiad, hyd yn oed os nad yn Sir y Fflint, bod y dysgu yn cael ei adolygu ac edrychir arno i ddeall sut y byddai hyn yn edrych yng Ngogledd Cymru i sicrhau bod yr awdurdodau yn ymateb yn gywir.

Cyfeiriodd Ryan McKewon at sylw'r Cynghorydd Parkhurst ar y digwyddiad bws yn dweud ei fod yn ymwneud â phan wnaeth un o'r gweithredwyr dynnu ei wasanaeth yn ôl ac yna ei ailgyflwyno yn fuan wedyn. Eglurodd Arweinydd y Cyngor fod hyn yn ymwneud â darparwr mwyafrif wnaeth gyhoeddi ddydd Gwener nad oeddent yn darparu'r gwasanaeth hwn ar y dydd Llun canlynol. Roedd y Prif Weithredwr a'r Prif Swyddogion wedi cynnal trafodaethau gyda'r gweithredwr oedd wedi arwain at y gweithredwr yn ailgyflwyno'r ddarpariaeth.

Gofynnodd y Cynghorydd McKeown am wybodaeth bellach ar y penderfyniad i gau pob ysgol ar draws Sir y Fflint pan gyflwynwyd y rhybudd oren am eira. Gofynnodd am eglurhad ar sut wnaed y penderfyniad a gofynnodd a fyddai'n bosibl rhannu cofnodion y cyfarfod hwnnw gyda'r Aelodau. Mewn ymateb, eglurodd y Prif Weithredwr fod y fframwaith gwneud penderfyniadau wedi'i gynnwys o fewn y cyflwyniad. Roedd Tîm Ymateb Rheoli Argyfwng y Cyngor, yn seiliedig ar wybodaeth fanwl gan y swyddfa dywydd a ffynonellau eraill, wedi dadansoddi'r wybodaeth honno ac yn dilyn trafodaethau gydag Arweinydd y Cyngor wedi gwneud y penderfyniad. Cadarnhawyd y byddai'r nodiadau o'r cyfarfod hwn yn gallu cael eu rhannu. Roedd yr Arweinydd yn dweud bod yr argymhelliad wedi'i ddarparu i Benaethiaid i gau ysgolion yn ôl eu hamgylchiadau tywydd unigol, oedd hefyd yn gorfod cynnwys eu staff yn teithio i'r ysgol o ardaloedd eraill ble roedd yna fwy o eira.

Gofynnodd y Cynghorydd Healey a oedd yna ddigon o ambiwlansys mewn achos o ddigwyddiad mawr. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Rheolwr Rhanbarthol fod gan bob Gwasanaeth Ambiwlans drefniant dwyochrog gyda Gogledd Cymru yn gallu cysylltu â Swydd Gaer a Swydd Amwythig. Os oedd yna achos yna byddai'r rhanbarth yn galw ar adnoddau o ardaloedd eraill er mwyn sicrhau ein bod yn gallu ymateb yn ddigonol. Roedd Arweinydd y Cyngor hefyd yn cadarnhau bod y trefniant dwyochrog yn berthnasol i Awdurdodau Tân a'r Heddlu hefyd.

Roedd Arweinydd y Cyngor yn cyfeirio at y penderfyniadau anodd a wnaed yn ystod ymateb Covid ar draws Gogledd Cymru i gyd a arweiniwyd gan yr Heddlu ac roedd yn cynnwys pob Prif Weithredwr ac Arweinydd. Yna cyfeiriodd yr Arweinydd at ddigwyddiad mawr a fu'n rhan ohono yn Bollingbrook Heights a dywedodd yn dilyn trafodaeth gyda'r Prif Weithredwr ar beth allai ei wneud i helpu, y cytunwyd y byddai'n derbyn brîff ar beth oedd yn digwydd a gofyn iddo siarad gyda'r wasg. Roedd yn teimlo fod gan Aelodau rôl gefnogol oherwydd ei brofiad gyda Covid a digwyddiadau eraill.

Roedd y Cynghorydd Paul Cunningham yn cytuno y dylai Aelodau aros allan o'r ffordd, ond roedd yr Arweinydd wedi amlygu ble gallai Aelodau fod yn ddefnyddiol. Cyfeiriodd at ei yrfa flaenorol fel ymladdwr tân ac roedd yn teimlo mai'r peth pwysicaf yn dilyn digwyddiad oedd yr ôl-drafodaeth. Dywedodd fod Sir y Fflint yn ffodus i gael Tîm Cynllunio Rhag Argyfwng mor wych.

Dywedodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) ei bod yn cadeirio'r Tîm Gwybodaeth Argyfwng fel rhan o'r Strwythur EMRT oedd wedi edrych ar gyfathrebu a sut roedd Aelodau yn cael eu cefnogi. Roedd y Llawlyfr Aelodau yn y broses o gael ei adolygu a byddai'n cael ei ddosbarthu gynted â phosibl ac anogwyd yr Aelodau i ymgymryd â'r E-ddysgu a ddarperir gan y tîm. Roedd y Prif Swyddog yn sicrhau'r Pwyllgor fod gan ysgolion Bolisi Rheoli Argyfwng mewn Ysgolion ar waith ac roedd yn amlinellu beth oedd wedi'i gynnwys o fewn y ddogfen hon. Roedd gan ysgolion gefnogaeth y portffolio pan oeddent yn delio gydag argyfwng. Cytunwyd bod y Llawlyfr i Aelodau wedi'i adolygu a'r ddolen i E-ddysgu yn cael eu dosbarthu i'r holl Aelodau drwy'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd ar ôl ei gwblhau.

Cynigiwyd yr argymhelliad, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad, gan y Cynghorydd Jason Shallcross ac eiliwyd gan y Cynghorydd Dave Mackie.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod yr adroddiad ynghyd â'r ymateb gan Dŵr Cymru a gwaith ehangach y gwasanaeth rhanbarthol yn cael ei nodi; a

(b) Bod y Pwyllgor yn diolch i Helen Kilgannon, Rheolwr Rhanbarthol Cynllunio Rhag Argyfwng am yr adroddiad a'r cyflwyniad a ddarparwyd yn y cyfarfod.

## 52. MYND I'R AFAEL AG EFFAITH ANGHYDRADDOLDEB AR DDEILLIANNAU ADDYSG

Wrth gyflwyno’r adroddiad, eglurodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) fod yr adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno yn dilyn cais gan y Pwyllgor. Roedd yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf ar y gwaith oedd yn cael ei wneud i gefnogi ysgolion i leihau effaith tlodi ar ddysgwyr oedd mewn amgylchiadau mwy dan anfantais

Roedd yr Uwch Reolwr Gwella Ysgolion yn cyfeirio at yr adroddiad blaenorol a gyflwynwyd i’r Pwyllgor ym mis Mai 2023 oedd yn amlinellu’r heriau cenedlaethol ac ymchwil o amgylch mynd i’r afael ag effaith tlodi ac anfantais. Roedd yr Aelodau wedi gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf ar y camau a’r cynnydd ac roedd yr adroddiad hwn yn amlygu’r prif agweddau. Roedd Adran 1.01 yn cyfeirio at y ffocws ar dlodi, edefyn oedd yn rhedeg drwy’r blaenoriaethau gwella strategol o fewn Cynllun y Cyngor. Roedd Adran 1.02 yn amlinellu’r data perfformiad blaenorol ar y deilliannau lleol a chenedlaethol gydag Adrannau 1.03 i 1.06 yn cyfeirio at y ffocws ar dri blaenoriaeth o fewn y Cynllun Corfforaethol. Roedd yr Awdurdod wedi llwyddo i gynnwys pob ysgol uwchradd yn y peilot ar gyfer prydau ysgol am ddim ar gyfer disgyblion blwyddyn 7, y peilot a ariannwyd yn genedlaethol a ddaeth i ben ym mis Gorffennaf 2023. Roedd yna ganmoliaeth i’r rhwydwaith cyfnewid gwisg ysgol oedd yn bodoli ar draws y Sir a’r ymarfer mapio oedd wedi cael ei arwain gan gydweithwyr yn y tîm Refeniw a Budd-daliadau. Roedd adran 1.06 yn cyfeirio at y rhaglen bwyd a hwyl a ddarparwyd dros y 5 mlynedd ddiwethaf a chynhaliwyd yn ystod gwyliau’r haf gyda 300 o blant yn cymryd rhan y llynedd. Roedd Adran 1.07 yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf ar sut roedd ysgolion yn defnyddio’r adnoddau gan y Comisiynydd Plant a’r adnodd “Gwirio gyda Ceri’ a hefyd yn cynnwys adborth gan ysgolion. Roedd Adran 1.08 yn amlygu sut yr oedd ysgolion yn gwneud defnydd o’r arian Grant Datblygu Disgyblion (GDD) gydag enghreifftiau wedi eu cynnwys o adroddiadau Arolwg Estyn yn ddiweddar. Roedd Adran 1.09 o’r adroddiad yn cyfeirio at y prosiectau ysgolion bro gydag arian grant Llywodraeth Cymru yn cael ei ddefnyddio i dargedu meysydd ble roedd ei angen fwyaf. Roedd Adran 1.10 yn amlinellu’r gwaith gyda gwasanaethau canolog o fewn y portffolio yn darparu cyngor parhaus i deuluoedd i’w galluogi nhw i gael mynediad i fudd-daliadau a gwasanaethau priodol yr oedd ganddynt hawl iddynt.

Roedd y Cadeirydd yn falch o weld faint o fentrau yr oedd ysgolion wedi eu gweithredu er budd y myfyrwyr. Roedd y Cadeirydd hefyd yn atgoffa’r Pwyllgor bod llythyr wedi cael ei anfon i bob ysgol ar ran y Pwyllgor, yn annog y defnydd o’r Grant Datblygu Disgyblion.

Roedd y Cynghorydd Dave Mackie yn cyfeirio at ei ymweliad diweddar i Ganolfan Westwood i dderbyn cyflwyniad gan Gail Bennett o fewn Gwasanaethau Plant ar y ffordd mae ymennydd plentyn yn datblygu. Gwnaed y pwynt os byddai plentyn yn derbyn y cymhelliant cywir yn yr oed cywir, roedd eu hymennydd yn datblygu mewn ffordd gadarnhaol, os nad oedd hyn yn digwydd yna roedd y nifer o gysylltiadau o fewn yr ymennydd yn gostwng. Roedd mor anodd newid y sefyllfa yr oedd y plant hyn yn gweld eu hunain ynddi, i newid y cysylltiadau hynny ac roedd yn bwysig fod rhieni yn deall hyn.

Mewn ymateb i gwestiynau gan y Cynghorydd Mackie ar y bwlch mewn canlyniadau TGAU rhwng disgyblion difreintiedig a disgyblion eraill yng Nghymru a Lloegr, dywedodd yr Uwch Reolwr nad oedd wedi cael cyfle i astudio’r adroddiad yn llawn gan Luke Sibieta, a gyhoeddwyd gan y Sefydliad

Astudiaethau Cyllidol gan ei fod newydd gael ei ryddhau heddiw. Cadarnhaodd y byddai hyn yn bwydo i'r gwaith portffolio wrth symud ymlaen.

Wrth ymateb i gwestiynau gan y Cynghorydd Mackie, rhoddodd yr Uwch Reolwr eglurhad ar y diffyg data cymharol ar gyfer myfyrwyr Safon Uwch a'r peilot llwyddiannus gan Lywodraeth Cymru a oedd wedi galluogi darparu brecwast iach a maethlon. Roedd ymatebion hefyd wedi eu darparu mewn perthynas â'r Rhaglen Bwyd a Diod, yn arbennig darparu prydau poeth a chefnogaeth staff ysgol ynghyd â'r Rhaglen Cyfnewid Gwisg Ysgol.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor am ei ymweliadau gyda'r Prif Swyddog i Dewi Sant yn Saltney, Ysgol Treffynnon yn Nhreffynnon, Ysgol Uwchradd Cei Connah ac Ysgol Maes Glas ym Maes Glas Hefyd, cyfeiriodd at yr ymweliad ag Ysgol Bryn Garth, hwyl yn y goedwig. Roedd y rhain yn gynlluniau ardderchog ac roedd y Cyngor yn hynod ddiolchgar i'r staff a staff yr ysgol oedd yn eu cefnogi. Roedd y digwyddiadau hyn yn llawn hwyl i blant a rhieni

Ychwanegodd y Prif Swyddog ei bod hi a'r Cynghorydd Mared Eastwood wedi ymweld â'r Fflint ar un o'r dyddiau pan oedd rhieni wedi derbyn gwahoddiad i fod yn bresennol. Roedd y rhieni yn dweud ei fod yn bwysig iawn i'w plant a gymaint yr oeddent yn gwerthfawrogi'r cynllun, yn arbennig y cyfle i fynd â bwyd adref. Roedd y nifer o ysgolion oedd yn ymrwymo i hyn wedi cynyddu bob blwyddyn ac roedd hon yn strategaeth bwysig gyda chyllid gan CLILC a'r ymrwymiad gan staff addysgu a chefnogaeth, AURA, y Bwrdd Iechyd a'r tîm yn rhedeg y gweithgareddau.

Yn dilyn awgrym gan Arweinydd y Cyngor, cytunwyd bod Aelodau o'r Pwyllgor yn derbyn gwahoddiad i'r sesiynau Rhaglen Bwyd a Hwyl 2024 i siarad gyda dysgwyr a theuluoedd i ddeall yr effaith gadarnhaol. Dywedodd y Prif Swyddog y byddai wrth ei bodd os byddai Aelodau o'r Pwyllgor yn dod draw i ymweld â'r archwiliadau bwyd a hwyl yr haf nesaf. Byddai'r dyddiadau yn cael eu rhannu gyda'r Pwyllgor.

Mewn ymateb i gwestiynau gan y Cynghorydd Andrew Parkhurst, roedd yr Uwch Reolwr yn darparu eglurhad ar y bwlch cyflawni addysg a oedd wedi gwaethygu gyda Covid, y cofrestriad ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim, oedd wedi arwain at arian o'r Grant Datblygu Disgyblion a'r cyswllt gyda chyrchfan Dysgwyr. Darparwyd gwybodaeth ar ddarpariaeth ôl-16 hefyd a'r Rhaglen SEREN i fyfyrwyr ymgeisio i'r prifysgolion Grŵp Russell a phrifysgolion eraill oedd wedi ymestyn i flwyddyn 9 ac uwch i gael y sgyrsiau hyn yn dechrau'n gynt mewn ysgolion. Cadarnhaodd yr Uwch Reolwr ei bod yn rhan o'r Bwrdd Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru oedd yn ymdrechu i ddatblygu cysylltiadau gwell gyda chyflogwyr ac ysgolion. Eglurwyd y byddai Cadeirydd y Bwrdd yn mynychu'r cyfarfod Penaethiaid Ysgolion Uwchradd ym mis Mai i amlinellu beth oedd yn cael ei gynnig. Roedd yr Ymgynghorydd Addysg Oedolion ac Ôl-16 yn edrych ar weithio o amgylch prentisiaethau i sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei dosbarthu i ysgolion. Roedd gwybodaeth hefyd wedi ei darparu ar Gyfleoedd Addysg Oedolion.

Cyfeiriodd y Prif Swyddog at gwestiwn y Cynghorydd Parkhurst ar bresenoldeb yn yr ysgol yn dweud fod hyn yn flaenoriaeth ar gyfer y portffolio a bod diweddariad blynyddol wedi'i ddarparu i'r Pwyllgor ar hyn. Sicrhaodd Aelodau

fod y Gwasanaeth Cynhwysiant yn mireinio'r dull yn gyson i sicrhau bod holl ddysgwyr yn yr ysgol.   Roedd camau bach cadarnhaol yn cael eu gwneud ers Covid, ond roedd hon yn frwydr gyson i sicrhau fod pobl ifanc yn dychwelyd ac yn aros yn yr ysgol.

Yn dilyn cwestiynau ynglŷn â Phrydau Ysgol am Ddim, cyfeiriodd yr Hwylusydd at lythyr a ysgrifennwyd yn ddiweddar at Gadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymuned a Thai ar beth oedd yn cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru, ar lefel genedlaethol, i gyhoeddi ac annog manteisio ar Brydau Ysgol am Ddim. Roedd ymateb wedi'i dderbyn gan y Gweinidog Addysg a'r Gymraeg a chytunwyd bod copi o'r llythyr ac ymateb yn cael ei ddosbarthu i'r Pwyllgor ar ôl y cyfarfod.

Roedd y Cynghorydd Bill Crease yn cytuno gyda'r sylwadau a wnaed gan y Cynghorydd Mackie a Parkhurst ac yn teimlo bod 3 i 4 blynedd cyntaf ym mywyd plentyn mor bwysig gyda goblygiadau anferth o ran y canlyniadau i bobl ifanc a'r adnoddau oedd eu hangen i geisio cywiro hyn. Roedd yn hanfodol fod dulliau yn cael eu canfod i helpu'r garfan Covid i herio, datblygu a gwella'r sefyllfa ar gyfer y bobl ifanc hyn.

Eglurodd yr Uwch Reolwr fod y rhain yn heriau anferth, ond yr effaith fwyaf oedd ansawdd addysg, dysgu ac addysgu yr oedd bobl ifanc yn ei dderbyn. Roedd addysg Blynyddoedd Cynnar mor bwysig, ac roedd yn talu teyrnged i'r ysgolion a'r gwaith yr oeddent yn ei wneud i helpu pobl ifanc ddal i fyny a darparu anogaeth gadarnhaol a gorfodi.  Roedd y disgyblion hyn yn ymateb yn dda iawn, er hynny gyda heriau ac roedd y ffocws ar ansawdd dysgu ac addysgu a fyddai'n helpu person ifanc i symud allan i'r byd gwaith a defnyddio eu sgiliau i symud i swyddi.

Dywedodd y Prif Swyddog fel ymarferydd blynyddoedd cynnar ei bod yn cytuno gyda'r Cynghorydd Crease. Roedd cydweithwyr mewn ysgolion cynradd yn disgrifio beth oedd y plant ieuengaf iawn oedd yn dod i ysgol gynradd yn ei gyflwyno a'r lefel o gefnogaeth yr oeddent ei hangen.  Y gefnogaeth a ddarperir gan Gail Bennett a'r Rhaglen Dechrau'n Deg i blant 2 oed, gallai plant gael mynediad i'r addysg a ariannwyd ar gyfer plant 3 oed gydag arweiniad yn cael ei ddarparu i grwpiau chwarae, i ddarparu'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar o ansawdd.  Eglurwyd bod Llywodraeth Cymru (LlC) wedi cyhoeddi eu cynllun newydd ar gyfer 0 - 5 oed "Y Cynllun Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yng Nghymru (Cynllun Lefel Uchel)" a rhoddwyd gorolwg o'r ffocws ar gyfer y cynllun hwn.   Cytunwyd y byddai'r ddogfen hon yn cael ei dosbarthu i Aelodau'r Pwyllgor yn dilyn y cyfarfod.

Roedd y Cynghorydd Debbie Owen yn gofyn am eglurhad am y clwb brecwast a gofynnodd a oedd ysgolion yn trefnu hyn eu hunain. Mewn ymateb, dywedodd yr Uwch Reolwr fod gan rai ysgolion eu clybiau eu hunan, gydag eraill yn derbyn cyllid.  Ychwanegodd y Prif Swyddog bod Llywodraeth Cymru (LlC) wedi gwneud darpariaeth ar gyfer brecwast cynradd, ond roedd hwn wedi dod yn ddarpariaeth gofal plant i rieni.   Roedd rhai ysgolion ond yn cynnig brecwast am 30 munud cyn dechrau'r dydd.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Debbie Owen at Quay Play a gofynnodd a oedd yn bosibl gweithio gyda'n gilydd. Dywedodd y Prif Swyddog fod y rhain yn ddwy

raglen wahanol gyda Bwyd a Hwyl yn rhedeg am 4 diwrnod dros y cyfnod o 3 wythnos.   Roedd y Quay Play yn rhan lwyddiannus o'r ddarpariaeth chwarae yn ystod gwyliau'r ysgol, ond roedd Llywodraeth Cymru (LlC) wedi cadarnhau nad oedd yn bosibl cael sefyllfa o gyllid dwbl.  Nid oedd yn bosibl defnyddio'r Grant Cyfleoedd Chwarae ar gyfer darparu bwyd ond y llynedd roedd cynlluniau chwarae yn gallu cynnig darpariaeth byrbrydau ble nodwyd bod yna angen.

Roedd Arweinydd y Cyngor yn canmol y Cadeirydd am y gwaith a wnaed ganddi mewn perthynas â'r cynllun cyfnewid gwisg ysgol. Cyfeiriodd at Brydau Ysgol am Ddim gan ddweud bod rhieni angen cofrestru i gael nid yn unig Prydau Ysgol am Ddim ond hefyd y Grantiau Gwisg Ysgol.  Ychwanegodd ei fod ef a'r Prif Swyddog wedi treulio llawer o amser yn siarad i fyny dros blant iau i gael mynediad i addysg gyda materion ymddygiad a chymdeithasu y plant hyn yn ymdroi o fewn y system addysg. Roedd yr Arweinydd yn teimlo bod annog myfyrwyr i gyrraedd y ddarpariaeth briodol fel prentisiaethau a allai arwain at swyddi am oes o ansawdd yn bwysig.  Nid oedd y brifysgol i bawb gyda theuluoedd yn ofni dyledion oedd yn allweddol ar gyfer hyn.

Dywedodd y Cynghorydd McKeown y bu'n ddisgybl mewn ysgol yn Sir y Fflint ac yn derbyn Prydau Ysgol Am Ddim a Grant Gwisg Ysgol. Roedd wedi mynychu'r brifysgol ond dywedodd nad oedd y brifysgol i bawb ac y dylid annog prentisiaethau.   Pan oedd yn yr ysgol, roedd y ffocws ar brifysgol pan fyddai prentisiaethau yn Airbus wedi gallu cynnig gyrfa ardderchog.   Roedd yn falch o weld y ffocws ar ysgolion bro.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Jason Shallcross at bwysigrwydd dylanwad rhiant a thrwy ei brofiad fel llywodraethwr roedd wedi gweld diffyg disgwyliad a dyhead. Roedd yn teimlo fod yna ddiffyg anogaeth yn y cartref a gofynnodd sut y gellir newid hyn.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Gina Maddison at y "siarter dros newid" a gofynnodd a oedd Ysgolion Uwchradd yn ymarfer tlodi mislif. Mewn ymateb, cadarnhaodd yr Uwch Reolwr bod yna Gynllun Grant Tlodi Mislif oedd yn derbyn cefnogaeth dda mewn ysgolion ac yn cael ei reoli gan y Tîm Ysgolion Iach. Roedd y tîm yn gweithio gydag ysgolion a chymunedau drwy ddarpariaeth Gwasanaethau Ieuenctid ac Addysg Oedolion yn dosbarthu cynnyrch am ddim a gwybodaeth addysgol ar y cynnyrch hwnnw. Cyfeiriodd y Prif Swyddog at yr ymgyrch hyrwyddo presennol a gynhelir ynghyd â'r gwasanaeth tanysgrifio a oedd yn sicrhau bod holl bobl ifanc â'r eitemau a ddarperir yn gyfrinachol i'w cartrefi gyda gwybodaeth yn cael ei darparu am y cynnyrch oedd ar gael.   Roedd y Cynllun yn sicrhau fod pawb oedd angen y cynnyrch yn eu derbyn oedd yn cynnwys gweithdai gyda rhieni.   Awgrymwyd bod adroddiad diweddaru ar 'Dlodi Mislif' yn cael ei ychwanegu i'r rhestr o eitemau o'r cyd-gyfarfod Craffu a drefnwyd ar gyfer 27 Mehefin 2024.

Mewn ymateb i gwestiynau gan y Cynghorydd Preece ar gyflwyno Prydau Ysgol Am Ddim fesul cam, roedd y Prif Swyddog yn cadarnhau bod y Cyngor ar y trywydd ar gyfer Blwyddyn 5 - 6 yn dechrau ar ôl y Pasg a diolchodd i NEWydd ac ysgolion am y cam olaf hwn o'r prosiect. Gan gyfeirio at y fwydlen a maint prydau, roedd y Prif Swyddog yn awgrymu bod y cwestiynau hyn yn cael eu cyflwyno i'r Cyfarwyddwr Rheoli pan fyddai yn mynychu cyfarfod o'r Pwyllgor.

Cafodd yr argymhelliad, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad, ei gynnig gan y Cynghorydd Gladys Healey a'i eilio gan y Cynghorydd Jason Shallcross.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi derbyn lefel barhaus o sicrwydd ynglŷn â gwaith y Portffolio Addysg ac Ieuenctid i gefnogi ysgolion fynd i'r afael ag effaith tlodi ac anfanteisio ar eu dysgwyr.

**53. AELODAU O'R WASG YN BRESENNOL**

Nid oedd unrhyw aelodau o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.00pm a daeth i ben am 4.15pm)

..............................
**Y Cadeirydd**